**Cofnodion cyfarfod misol dyddiedig 8fed o Orffennaf a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa am 7 yn yr hwyr.**

| **PRESENNOL** | |
|---|---|
| Eifion Williams | Cynog Prys |
| Llŷr Evans | Daniel Williams |
| Meleri Jones | Eleri wyn Thomas |
| Dafydd Hughes | Emyr Gareth |
| Iolo Williams | Deiniol Tegid |
| Owain Jones | |

| | | |
|---|---|---|
| **1.0** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
| | Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan Y Cynghorydd Eifion Williams.(Cadeirydd).<br>i. Fe gafodd yr isod eu cyfethol fel aelodau o'r Cyngor Cymuned gan eu bod yn cymwys i wneud hynny: Deiniol Tegid, Iolo Williams, Owain Jones, Siân Williams a Gareth Humphreys. Croesawyd tri ohonynt i'w cyfarfod cyntaf. Bydd Siân a Gareth yn mynychu ym mis Medi.<br>ii. Croesawyd Seimon, swyddog yr Urdd i'r cyfarfod. Mae'r urdd bellach wedi bod yn cynnal sesiynau yn y neuadd ar gyfer pobl ifanc blynyddoedd 7 - 9 a phlant oed cynradd ers blwyddyn. Er mwyn annog y sesiynau hyn mae'r Cyngor wedi bod yn rhoi defnydd o'r Neuadd yn rhad ag am ddim. Ar hyn o bryd mae'r sesiynau yn digwydd yn wythnosol ar gyfer blwyddyn 7 - 9 ac yn fisol ar gyfer plant iau. Adroddwyd ar fath o weithgareddau sydd yn cael eu cynnal a bod angen edrych sut mae datblygu sesiynau ar gyfer plant ysgol gynradd. Ar hyn o bryd mae canllawiau yn caniatáu 10 o blant i un swyddog. Os bydd mwy o blant bydd angen edrych am wirfoddolwyr. Penderfynwyd byddai sesiynau oed cynradd yn cael eu rhoi ar galendr yr ysgol er mwyn atgoffa rhieni o'r sesiynau. Gobeithio hefyd annog gwirfoddolwyr i helpu arall a'r sesiynau. Diolchodd y Cyngor i'r Swyddog am ei bresenoldeb a'i waith. | **CLERC** |
| **1.1** | Ni chafwyd cyfraniad oddi wrth y cyhoedd. | |
| **2.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| **2.1** | Eitem 4.5 - Cynghorydd Eifion Williams | |
| **3.0** | **CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL** | |

| | | |
|---|---|---|
| **3.1** | Derbyniwyd gwariant mis Mai a Mis Mehefin 2025. Derbyniwyd hefyd adroddiadau ariannol mis Mai a Mehefin 2025. | |
| **3.2** | Adroddiad Archwilio Cymru - Archwiliad 2023-2024 - derbyniwyd yr adroddiad gyda’r argymhellion. | |
| **3.3** | Adroddiad archwiliad mewnol 2024 - 2025 - Cyngor Gwynedd - Derbyniwyd yr adroddiad gyda’r argymhellion. Arwyddwyd gan y Clerc a’r Cadeirydd. Y Clerc i symud ymlaen ac anfon ymlaen y gwybodae4th angenrheidiol ar gyfer archwiliad eleni at Archwilio Cymru. | |
| **4.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| **4.1** | Cadarnhawyd cofnodion mis Mai. Er bod cofnod wedi ei wneud ar gyfer mis Mehefin nid oedd cworwm felly nid oeddŷnt yn gallu cael eu cadarnhau. | |
| **4.2** | Toiledau - mae dyddiad dechrau paentio’r adeilad wedi ei dderbyn sef 21 o Orffennaf. Mae mynediad i ddŵr a thrydan a’r gael i’r contractwr drwy Gyngor Gwynedd ac mae trefniadau mewn llaw. Cafwyd adroddiad bod y toiledau yn gollwng ac yn barhaol wlyb; hefyd nid yw’r golau yn gweithio ynddo. Y Clerc i adrodd y diffygion i’r Swyddog priodol yng Ngwynedd. | **CLERC** |
| **4.3** | Cynllun Rheoli Traffig - derbyniwyd bod dim cyllid ar gael i weithredu’r cynllun o drefn unffordd anffurfiol. Penderfynwyd bod y clerc yn anfon at Priffyrdd a Thrafnidiaeth Gwynedd er mwyn datgan bod y Cyngor ddim yn fodlon i aros hyd nes bod cyllid ar gael i weithredu; felly yn y cyfamser gofyn am arwydd priodol dan glo ar y safle a fyddai wedyn ar gael i’w weithredu gan staff priffyrdd Gwynedd fel bo angen. Hefyd i wneud cais am amcan bris am rwydd priodol parhaol ar gyfer y safle ar gost y Cyngor Cymuned. | **CLERC** |
| **4.4** | Biniau Cae Pêl droed Ffordd Lan y Môr - y gwaith wedi ei gwblhau. | |
| **4.5** | Cae Chwaraeon Lan y Môr - cais cynllunio yn cael ei gwblhau dros yr haf gan y Clerc. Angen datganiad ynglŷn â llifogydd. Ymweliad safle wedi bod gan Swyddog adran eiddo a Cadeirydd y Cyngor i drafod prydles. Penderfynwyd byddai brydles yn cael eu gwneud i gynnwys y Cae Pêl droed a’r Parc Cychod bach. Bydd y brydles am 7 mlynedd yn y lle cyntaf. Er hynny mae angen cadarnhau os bydd cyfnod y brydles yn y lle cyntaf yn effeithio cyfleoedd y Cyngor i gael grantiau. Y Clerc i drafod y mater hwn gyda’r Swyddog Eiddo. | **CLERC/EG** |
| **4.6** | Llwybr Cerrig yr Afon - dim gwaith wedi ei wneud yno hyd yma. Mae gwaith dros dro wedi ei wneud gan y ffarmwr. Y Cynghorydd Eifion Williams i wneud ymholiadau a’r contractwr i weld pa bryd bydd y gwaith yn cael ei gwblhau. | **CLERC/EW** |

| | | |
|---|---|---|
| **4.7** | Cludiant cyhoeddus Y Felinheli - ymateb wedi dod yn datgan os byddai gwaith ail baentio yn cael ei wneud ar safle bws ar Ffordd Bangor yna byddent yn ail ddechrau defnyddio'r safle. Penderfynwyd bod y Clerc yn anfon at Priffyrdd Gwynedd yn datgan bod y gwaith hwn angen ei weithredu fel blaenoriaeth. Mae Arriva hefyd yn treialu ffioedd unffordd (sengl) yn seiliedig ar bellteroedd gyda thrafnidiaeth Cymru ar wasanaeth arall ym mis Medi. Os bydd y treial yma yn llwyddiannus byddant wedyn yn adolygu gwasanaethau eraill. Nes bydd canlyniadau i'w cael ni fydd newid mewn ffioedd gwasanaethau. | **Clerc/EG** |
| **4.8** | Materion Priffyrdd- i. Golau stryd gyferbyn ag Arfonia - y gwaith hwn wedi ei drefnu ac i'w gwblhau yn yr haf. ii. Gordyfiant - gwaith wedi cychwyn ar hyn. | |
| **4.9** | Ciosg Aberpwll - y clerc yn parhau i weithio ar y mater i fabwysiadau'r ciosg. | |
| **5.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| **5.1** | Rhif Cais: C25/0229/20/CR Lleoliad: 2, Bodarborth Stryd Bangor, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4JQ Bwriad: Gosod gwydriad eilradd. DIM GWRTHWYNEBIAD | **CLERC** |
| | Rhif Cais: C25/0399/20/DT Lleoliad: Heulyn, 16 Bryn Y Môr, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4LY Bwriad: Estyniadau i'r eiddo presennol. DIM GWRTHWYNEBIAD. | |
| **6.0** | **RHEOLAETH** | |
| **6.1** | Gwaith ar y wefan yn parhau. | **CLERC** |
| **7.0** | **ASEDAU** | |
| | **Pris wedi ei wneud i gynnal y cysgodfannau. Y gwaith i'w gwblhau yn fuan.** | |
| **8.0** | **LLWYBRAU CYHOEDDUS, LÔN LAS A PHRIFFYRDD** | |
| **8.1** | Cafwyd adroddiad bod llwybr 5 yn cael ei effeithio gan gi yn rhedeg yn rhydd a bod defnyddwyr yn peidio ei gerdded. Y clerc i anfon yr adroddiad yma ymlaen at Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd. Mae stepiau lawr i Hen Gei Llechi ac i Dinas angen ei drin a thorri'r tyfiant. Y Clerc i anfon at y Contractwr i wneud y gwaith. | **CLERC** |
| **8.2** | Cafwyd gwybodaeth bod yr ardal o Frynffynnon hyd at safle 11a Ffordd Caernarfon angen gwaith chwynu. Y clerc i anfon at Priffyrdd Gwynedd. | |
| **9.0** | **NEUADD GOFFA A CHLOC** | |
| **9.1** | Dim gwybodaeth ychwanegol i'r mis diwethaf. | **DW** |
| **10.00** | **CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL** | |
| | Dim adroddiad | **EG** |
| | **Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 9.15 yn yr hwyr.** | |
| **Llofnod:** | | **Dyddiad: 16/09/25** |



Heather Lynne Jones